OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 58

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016

## RHAN 8

Ceisiadau am ganiatâd cynllunio a wneir i Weinidogion Cymru

**Dyletswyddau i hysbysu'r cyhoedd o benderfyniadau terfynol**

**36.**—(1) Pan fo cais AEA yn cael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru neu arolygydd, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) hysbysu'r awdurdod cynllunio perthnasol o'r penderfyniad; a

(b) darparu datganiad i'r awdurdod sy'n cynnwys—

(i) cynnwys y penderfyniad ac unrhyw amodau sy'n gysylltiedig ag ef;

(ii) y prif resymau ac ystyriaethau y seilir y penderfyniad arno, gan gynnwys, os yn berthnasol, gwybodaeth am gyfranogiad y cyhoedd;

(iii) disgrifiad, pan fo angen, o'r prif fesurau ar gyfer osgoi, lleihau ac, os yn bosibl, gwrthbwyso prif effeithiau andwyol y datblygiad; a

(iv) gwybodaeth ynghylch yr hawl i herio dilysrwydd y penderfyniad a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud hynny.

(2) Rhaid i'r awdurdod cynllunio perthnasol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael hysbysiad o dan baragraff (1)(a)—

(a) hysbysu'r cyhoedd o'r penderfyniad, drwy hysbyseb lleol, neu drwy unrhyw ddull arall sy'n rhesymol dan yr amgylchiadau; a

(b) sicrhau bod y datganiad a gafwyd gan yr awdurdod yn unol â pharagraff (1)(b), ar gael i'r cyhoedd edrych arno yn y lle y cedwir y gofrestr briodol (neu adran berthnasol y gofrestr honno).